

COFNODION CYFARFOD
BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG (BIPCTM)

A GYNHALIWDY DDYDD IAU 26 TACHWEDD 2020
AR FFURF CYFARFOD AR-LEIN A DDARLLEDWYD YN FYW TRWY
MICROSOFT TEAMS

AELODAU A FU'N BRESENNOL:

Marcus Longley	– Cadeirydd
Paul Mears	– Y Prif Weithredwr
Maria Thomas	– Is-gadeirydd
Alan Lawrie	– Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
Hywel Daniel	– Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (Dros Dro)
Dilys Jouvenat	– Aelod Annibynnol
Giovanni Isingrini	– Aelodau Cysylltiol
Greg Dix	– Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio
Ian Wells	– Aelod Annibynnol
James Hehir	– Aelod Annibynnol
Jayne Sadgrove	– Aelod Annibynnol
Keiron Montague	– Aelod Annibynnol (yn arsylwi trwy'r Ffrwd Fyw)
	– Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd (am gyfnod)
Kelechi Nnoaham	– Aelod Annibynnol
Mel Jehu	– Aelod Annibynnol
Nicola Milligan	– Aelod Annibynnol
Paul Griffiths	– Aelod Annibynnol
Phillip White	– Aelod Annibynnol
Georgina Galletly	– Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol
Clare Williams	– Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad (Dros Dro)
Steve Webster	– Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Nick Lyons	– Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Fiona Jenkins	– Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd (Dros Dro)

ERAILL YN Y CYFARFOD:

Cally Hamblyn	– Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg
Cathy Moss	– Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg
John Beecher	– Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg (arsylwodd ar y cyfarfod fel aelod o'r cyhoedd drwy'r ddolen fyw)
David Jenkins	– Ymgynghorydd Annibynnol i'r Bwrdd (arsylwodd)

Eitem Rhif 2.1.1 ar yr Agenda

John Murray

Paul Dalton

Lee Leyshon

Uschi Turoczy

Emma Walters

- ar y cyfarfod fel aelod o'r cyhoedd drwy'r ddolen fyw)
- Deloitte (arsylwodd ar y cyfarfod fel aelod o'r cyhoedd drwy'r ddolen fyw)
- Archwilio Mewnol
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ymgysylltu a Chyfathrebu
- Hwylusydd Ysgrifennu Creadigol (am gyfnod)
- Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)

A) MATERION RHAGARWEINIOL

HB/20/201

EITEM 1.1 AR YR AGENDA – CROESO A CHYFLWYNO

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, a oedd yn cael ei ddarlledu 'yn fyw' drwy Microsoft Teams o ganlyniad i parhaus COVID-19. Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn arsylwi'r cyfarfod heddiw yn ogystal.

Nododd y Cadeirydd fod staff sy'n gweithio yn y sefydliad wedi colli cydweithwyr dros yr wythnosau diwethaf yn anffodus, o ganlyniad i'r pandemig. Ddydd Llun 23 Tachwedd, talodd y Bwrdd Iechyd deyrnged i Mark David Simons trwy gynnal munud o dawelwch, a nododd y Cadeirydd y byddai'r Bwrdd Iechyd hefyd yn meddwl am y cydweithwyr a gollwyd oherwydd COVID-19 yn y digwyddiad cydnabyddiaeth i staff i'w gynnal ar 16 Rhagfyr 2020.

Atgoffodd y Cadeirydd Aelodau'r Bwrdd o'r broses a roddwyd ar waith lle bydd cwestiynau'n cael eu cyflwyno cyn y cyfarfod, sydd wedyn yn cael eu hateb gan Swyddog arweiniol perthnasol. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yn bwriadu darllen y cwestiynau ar goedd yn y cyfarfod, gan iddynt gael eu rhannu cyn y cyfarfod a'u cynnwys er cyfleustra ar system Admincontrol. **NODODD** Aelodau y byddai'r cwestiynau a'r atebion hefyd yn cael eu cofnodi'n ffurfiol yn y cofnodion a'u huwchlwytho i'r wefan.

Croesawodd y Cadeirydd F Jenkins, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd Dros Dro, i'r cyfarfod. **NODODD** Aelodau y byddai F Jenkins yn rhoi cymorth i'r Bwrdd am gyfnod byr ar sail rhan-amser.

Croesawodd y Cadeirydd C Moss a J Beecher, o Gyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg, i'r cyfarfod. **NODODD** Aelodau fod J Beecher yn arsylwi'r cyfarfod heddiw trwy'r Ffrwd Fyw. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi croesawu D Jenkins a J Murray i'r cyfarfod, a oedd hefyd yn arsylwi'r cyfarfod trwy'r Ffrwd Fyw.

Eitem Rhif 2.1.1 ar yr Agenda

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Uschi Turoczy a oedd yn y cyfarfod i gyflwyno hanes claf.

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd mai hwn fyddai cyfarfod olaf yr Aelod Annibynnol P Griffiths, oedd yn gadael y Bwrdd cyn ei ymddeoliad ym mis Rhagfyr. Diolchodd y Cadeirydd yn ddifffuant unwaith eto i P Griffiths am ei gyfraniad yn ystod ei gyfnod fel Aelod o'r Bwrdd. **NODODD** Aelodau fod y broses recriwtio ar gyfer Aelod Annibynnol newydd eisoes wedi dechrau.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai K Montague, Aelod Annibynnol, hefyd yn arsylwi'r cyfarfod trwy'r Ffrwd Fyw ac y byddai'n gofyn cwestiynau trwy declyn sgwrsi Teams.

HB/20/202

EITEM 1.2 AR YR AGENDA – YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

NODODD aelodau fod ymddiheuriadau wedi eu derbyn gan:

- Sharon Richards, Aelod Cyswllt
- Olive Francis, Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg

HB/20/203

EITEM 1.3 AR YR AGENDA – DATGANIAD O FUDDIANNAU

Datganodd F Jenkins ei bod hefyd yn Gyfarwyddwr Gweithredol i Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro.

AGENDA CYDSYNIAD – I'W CHYMERADWYO

Dywedodd y Cadeirydd fod yr holl aelodau wedi darllen yr adroddiadau a bod y cwestiynau a godwyd wedi cael eu hateb. Nid oedd yr aelodau yn dymuno symud unrhyw adroddiad o'r agenda cydsyniad i'r brif agenda.

HB/20/204

EITEM 2.1.1 AR YR AGENDA COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 29 HYDREF 2020 SYDD ETO I'W CADARNHAU

PENDERFYNODD yr aelodau **GYMERADWYO** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Hydref 2020.

HB/20/205

EITEM 2.1.2 AR YR AGENDA ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG 2019/2020

PENDERFYNODD Aelodau **GYMERADWYO** Adroddiad Blynyddol 2019/2020 y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Eitem Rhif 2.1.1 ar yr Agenda

HB/20/206

EITEM 2.1.3 AR YR AGENDA ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ANSAWDD A DIOGELWCH 2019/2020

PENDERFYNODD aelodau: GYMERADWYO Adroddiad Blynyddol 2019/2020 y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch

HB/20/207

EITEM 2.1.4 AR YR AGENDA DIWYGIO'R POLISI FFRAMWAITH AR GYFER SAFONAU YMDDYGIAD – Y FFURFLEN ANRHEGION, LLETYGARWCH A NAWDD

Codwyd cwestiwn gan Aelod Annibynnol cyn y cyfarfod, fel y'i hamlinellir isod ynghyd â'r ymateb a roddwyd

Cwestiwn: Ar Dudalen 4 yn Argymhelliad 5.1 mae'r pwynt bwled cyntaf yn cyfeirio at barhau i adolygu'r sefyllfa oherwydd pwysau COVID-19 a'r rhoddion yn sgil hyn. Cwestiwn: Rydym eisoes yn gweld rhoddion ledled CTM trwy 'Wish List' y GIG; a allwch chi gadarnhau na fydd staff o dan unrhyw bwysau amhriodol i ddatgan dim ar yr adeg hon oherwydd yr ymateb i COVID-19?

Ateb: Bwriad yr adroddiad hwn yw ei gwneud yn orfodol eto i ddatgan rhoddion, a chyflwyno ffurflen newydd y gellir ei chwblhau'n hawdd ar lein. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn cyn ail don yr heintiadau, felly gallwch fod yn dawel eich meddwl y byddwn yn parhau i sicrhau bod y broses yn un hwylus o ran rhoddion ar gyfer COVID-19, fel na fydd pwysau amhriodol ar y gwasanaeth ar yr adeg hon wrth inni ymateb i'r pandemig.

PENDERFYNODD aelodau: GYMERADWYO'R Diwygiadau i'r Polisi Fframwaith ar gyfer Safonau Ymddygiad – Y Ffurflen Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd

HB/20/208

EITEM 2.1.5 AR YR AGENDA CYLCH BUSNES Y BWRDD

PENDERFYNODD aelodau: GYMERADWYO Cylch Busnes y Bwrdd.

HB/20/209

EITEM 2.1.6 AR YR AGENDA DIWYGIO'R RHEOLAU SEFYDLOG

PENDERFYNODD aelodau: GYMERADWYO'R Diwygiadau i Reolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd.

AGENDA GYDSYNIAD – I'W NODI

HB/20/210

EITEM 2.2 AR YR AGENDA – COFNODION GWEITHREDU

Eitem Rhif 2.1.1 ar yr Agenda

PENDERFYNODD aelodau: **NODI'R** Cofnodion Gweithredu.

HB/20/211

EITEM 2.2.2 AR YR AGENDA - ADRODDIAD Y CADEIRYDD A GOSOD Y SÊL GYFFREDIN

PENDERFYNODD aelodau:

- **NODI'R** adroddiad.
- **CYMERADWYO** gosod y Sêl Gyffredin ar y dogfennau a restrwyd uchod.
- **CADARNHAU'R** camau a gymerwyd gan y Cadeirydd mewn perthynas â Chaffael a Gwaredu Eiddo.

HB/20/212

EITEM 2.2.3 AR YR AGENDA - ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

PENDERFYNODD aelodau: **NODI** Adroddiad y Prif Weithredwr.

HB/20/213

EITEM 2.2.4 AR YR AGENDA ADRODDIAD CRYNO'R PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

PENDERFYNODD aelodau: **NODI'R** adroddiad;

HB/20/214

EITEM 2.2.5 AR YR AGENDA ADRODDIAD CRYNO'R PWYLLGOR DIGIDOL A DATA

PENDERFYNODD aelodau: **NODI'R** adroddiad;

HB/20/215

EITEM 2.2.6 AR YR AGENDA ADRODDIAD CRYNO'R PWYLLGOR TALIADAU A THELERAU GWASANAETH

PENDERFYNODD aelodau: **NODI'R** adroddiad;

HB/20/216

EITEM 2.2.7 AR YR AGENDA ADRODDIAD CRYNO'R PWYLLGOR GWEITHREDOL AR Y CYD (NEWID Y FFIN Â PHEN-Y-BONT AR OGWR)

PENDERFYNODD aelodau: **NODI'R** adroddiad;

HB/20/217

EITEM 2.2.8 AR YR AGENDA ADRODDIAD CRYNO'R PWYLLGOR CYNLLUNIO, PERFFORMIAD A CHYLLID

PENDERFYNODD aelodau: **NODI'R** adroddiad.

HB/20/218

**EITEM 2.2.9 AR YR AGENDA ADRODDIAD CRYNO PWYLLGOR
MONITRO'R DDEDDF IECHYD MEDDWL**

PENDERFYNODD aelodau: **NODI'R** adroddiad;

HB/20/219

**EITEM 2.2.10 AR YR AGENDA ADRODDIAD CRYNO'R GRŴP
CYFEIRIO RHANDDEILIAID**

PENDERFYNODD aelodau: **NODI'R** adroddiad;

PRIF AGENDA

**CYD-GREU GYDA STAFF A PHARTNERIAID, A DIWYLLIANT O
DDYSGU A THYFU**

HB/20/220

**EITEM 4.1 AR YR AGENDA DYSGU A GWRANDO AR Y CYD –HANES
CLAF**

Nododd y Cadeirydd fod nifer o Aelodau'r Bwrdd wedi bod yn ffodus o gael gwranddo ar yr hanes hwn yng nghyfarfod o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2020, ac ychwanegodd ei fod wrth ei fodd bod Uschi Turoczy yma heddiw i rannu ei hanes â'r Bwrdd cyfan.

Eglurodd y Cadeirydd gefndir U. Turoczy i Aelodau'r Bwrdd, a dywedodd iddi dderbyn cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu prosiect *The Voices* mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd yn rhan o'i Raglen Celf ym maes Iechyd. Rhan o'r prosiect oedd casglu hanesion cleifion yn rhan o werthusiad creadigol. Yn fwyaf diweddar, roedd wedi ymweld ag Ysbyty'r Seren i gwrdd â chlaf, clywed ei stori a throsi'r geiriau i gerdd. Ar y pwynt hwnnw, darllenodd U Turoczy eiriau'r claf ar goedd i Aelodau'r Bwrdd.

Diolchodd y Cadeirydd i U Turoczy am gyflwyno'r hanes i'r Bwrdd.

HB/20/221

**EITEM 3.1 AR YR AGENDA MATERION YN CODI NAD YSTYRIWYD
YN Y COFNODION GWEITHREDU**

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

**GWAITH GYDA CHYMUNEDAU A PHARTNERIAID I DRECHU
ANGHYDRADDOLDEB, HYBU LLESIANT AC ATAL SALWCH**

HB/20/222

EITEM 5.1 AR YR AGENDA - DIWEDDARIAD COVID-19

Eitem Rhif 2.1.1 ar yr Agenda

Rhoddodd K Nnoaham ddiweddariad i'r Bwrdd a thynnodd sylw at y pwyntiau allweddol canlynol:

- Roedd cyfradd ddyddiol y canlyniadau positif ledled Cwm Taf Morgannwg yn gostwng yn gyffredinol ledled y tri Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, roedd y gyfradd honno o hyd yn uwch na 10%.
- Mewn perthynas â digwyddedd saith diwrnod cronol COVID-19, cyn y cyfnod atal byr, roedd cyfnod tair wythnos o gynnydd dyddiol yn CTM. Ar ôl y cyfnod atal byr, roedd mantais 7-10 diwrnod i'w gweld, ac mae'r gostyngiad bellach yn arafu. **NODODD** Aelodau ei bod yn debygol y byddai'r rhanbarth yn gweld cyfnod arall o dwf;
- O ran y berthynas rhwng y gyfradd o ganlyniadau positif a digwyddedd cronol sy'n benodol i oedran, roedd gostyngiad i'w weld yn nifer yr achosion yn y grŵp oedran 60-80, ond roedd cynnydd i'w weld yng nghyfradd y canlyniadau prawf positif. Roedd y patrwm hwn yn gyson ledled y tri Awdurdod Lleol, ond roedd ar ei waethaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf;
- Roedd y tueddiadau o ran oedran yn nifer yr heintiadau o COVID-19 yn dangos patrwm o gynnydd cyson yn ystod yr ail don, ac mae'n ymddangos bellach bod y gostyngiad diweddar a welwyd wedi dod i ben a bod y cyfraddau heintio yn cynyddu unwaith eto. Roedd hyn yn gyson ledled y tri Awdurdod Lleol;
- Roedd y cynnydd 14 diwrnod yn nifer yr heintiadau COVID-19 yn yr ysbyty a ddaliwyd yn y gymuned yn dangos bod nifer yr heintiadau yn gostwng. Mae'n debygol mai'r cyfnod atal byr sy'n gyfrifol am hyn. **NODODD** Aelodau nad oedd achosion o gynnydd sydyn yn nifer yr heintiadau mewn ysbytai yn tyfu'n esbonyddol.
- Nid oedd unrhyw achosion newydd o gynnydd sydyn yn nifer yr heintiadau COVID-19 yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, a'r tueddiad ar gyfer Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Tywysoges Cymru oedd gostyngiad yn nifer yr heintiadau.
- Roedd oedi o ran y tueddiad yn nifer y marwolaethau o COVID-19, a byddai oedi o ryw wythnos i bythefnos cyn gweld nifer y marwolaethau ar ôl i achosion newydd yn yr ysbyty godi. Am bob 3 i 4 achos a gofnodwyd, byddai un farwolaeth yn dilyn ymhen wythnos i bythefnos;
- Roedd nifer yr heintiadau a ddaliwyd yn y gymuned yn uwch yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad ynghylch effaith yr oedi hwn wrth adrodd yn Ysbyty Tywysoges Cymru ar yr ysbyty dros y pythefnos nesaf. Dywedodd K Nnoaham fod pob achos o gynnydd sydyn yn nifer yr heintiadau ym mhob un o ysbytai'r Bwrdd Iechyd bellach yn gweld twf esbonyddol negatif. Y prif ddylanwad ar hyn oedd yr hyn oedd yn

Eitem Rhif 2.1.1 ar yr Agenda

digwydd yn y gymuned, ac i'w briodoli i'r cyfnod atal byr yn bennaf. Dywedodd K Nnoaham ei fod yn disgwyl gweld cynnydd yn nifer yr achosion o heintiadau a ddaliwyd yn y gymuned yn cyrraedd yr ysbyty.

Cyfeiriodd P White at y cynnydd dramatig a welwyd yn nifer yr heintiadau ymhlith staff o 22 Hydref hyd at y cyfnod atal byr, a gofynnodd a oedd y Bwrdd Iechyd yn debygol o weld cynnydd pellach ai peidio ar ôl y cyfnod atal byr. Dywedodd K Nnoaham ei fod yn teimlo mai'r brechlyn fyddai'r ffordd orau o leihau nifer yr heintiadau, ac ychwanegodd y byddai angen ymgysylltu'n helaeth â chymunedau er mwyn i hyn lwyddo, i'w hannog i dderbyn y brechlyn. **NODODD** Aelodau y byddai'r brechlyn yn cael ei gynnig i staff er mwyn sicrhau eu bod wedi eu hamddiffyn.

Diolchodd I Wells i K Nnoaham am y diweddariad a gofynnodd a fyddai'r cromliniau'n cael eu haddasu er mwyn adlewyrchu'r nifer uwch o brofion sy'n cael eu cynnal. Dywedodd K Nnoaham fod rhagor o staff wedi cael prawf oherwydd achosion o gynnydd sydyn yn nifer yr heintiadau yn ystod yr ail don, ac o'r herwydd roedd heintiadau nad oeddent wedi eu canfod am na chynhaliwyd profion yn ystod y don gyntaf.

Diolchodd y Cadeirydd i K Nnoaham am gyflwyno'r adroddiad ac am yr holl waith y mae ef a'i dîm wedi ei wneud hyd yma.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** diweddariad.

HB/20/223

EITEM 5.2 AR YR AGENDA CYNLLUNIO AR GYFER Y GAEAF GAN Y BWRDD PARTNERIAETH RANBARTHOL A'R CYNLLUN PARODRWYDD

Derbyniwyd nifer o gwestiynau a sylwadau gan Aelodau Annibynnol cyn y cyfarfod, ac maent wedi eu hamlinellu isod ynghyd â'r atebion iddynt:

Sylw - 5.2.b Rwyf yn falch o weld bod y Trydydd Sector yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gyflawni'r cynllun.

Cwestiwn: 5.2b Pwynt 15 ar Dudalen 23 Cartrefi Gofal - Ydy'r cynllun gweithredu rhanbarthol wedi cael ei ddatblygu?

Ateb: Ydy, mae cynllun gweithredu rhanbarthol wedi ei ddatblygu ar gyfer cartrefi gofal.

Eitem Rhif 2.1.1 ar yr Agenda

Cyflwynodd A Lawrie yr adroddiad a dywedodd fod yr adroddiad yn manylu ar sut mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu mynd i'r afael â'r heriau dros fisoedd y gaeaf. Nododd hefyd i'r adroddiad gael ei gynnwys yng nghynllun Chwarter 3/Chwarter 4 a gyflwynwyd i'r Bwrdd.

NODODD Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer elfennau allweddol y cynllun, a bod £11m yn cael ei buddsoddi mewn cynllunio ar gyfer y gaeaf a bod £7.5m o'r swm hwnnw wedi ei roi i'r Bwrdd Iechyd. **NODODD** Aelodau fod yr adroddiad yn tynnu sylw at sut y byddai'r adnoddau hyn yn cael eu defnyddio, a bod Llywodraeth Cymru yn fodlon ar hyn.

NODODD Aelodau fod y cynllun yn dibynnu'n drwm ar y gweithlu, a **NODASANT** fod y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol bod y gweithlu'n cael ei dynnu i sawl cyfeiriad ar hyn o bryd, nid yn unig yn y Bwrdd Iechyd ond yn y tri Awdurdod Lleol hefyd.

NODODD Aelodau y byddai angen gwneud gwaith i ragweld yr angen am welyau Gofal Dwys yn y dyfodol, a byddai nifer y gwelyau yn Ysbyty'r Seren yn rhan bwysig o hyn.

O ran y cynlluniau a nodwyd yn yr adroddiad, dywedodd C Williams fod proses gryfach ar waith er mwyn sicrhau bod effaith y cynlluniau hyn yn cael ei monitro, â'r nod o benderfynu ar y cynlluniau a fyddai'n parhau ar ôl y gaeaf.

Dywedodd J Sadgrove fod staff y Bwrdd Iechyd o dan gryn bwysau ar hyn o bryd oherwydd COVID-19, a hynny tra bod nifer fawr o swyddi gwag heb eu llenwi, ac ychwanegodd fod angen i'r Bwrdd Iechyd fod yn werthfawrogol iawn o'r staff sy'n gweithio'n hynod o galed. Dywedodd H Daniel fod hon yn her anferthol i'r Bwrdd Iechyd, a'i bod hefyd yn her ledled Cymru, ac ychwanegodd fod y Bwrdd Iechyd wedi gwella'n fawr ar ei gymorth lles i staff.

Cyfeiriodd I Wells at y cynllun peilot ar gyfer Segmenteiddio'r Boblogaeth a Phennu Lefel Risg sydd ar y gweill, sy'n targedu triniaeth yn gynnar. Canmolodd I Wells y prosiect hwn, a dywedodd y byddai'n dda ganddo weld y prosiect hwn yn parhau.

Diolchodd y Cadeirydd i A Lawrie am gyflwyno'r adroddiad.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** diweddariad a ddarparwyd.

**DARPARU GOFAL HYGIRCH O ANSAWDD UCHEL AR SAIL
TYSTIOLAETH**

HB/20/224

**EITEM 6.1 AR YR AGENDA DIWEDDARIAD AM WASANAETHAU
MAMOLAETH**

Codwyd nifer o gwestiynau gan Aelodau Annibynnol a gwnaed rhai sylwadau cyn y cyfarfod, ac maent wedi eu hamlinellu isod ynghyd â'r ymatebion a roddwyd:

Cwestiwn: 6.1a Tudalennau 10/11: Roedd materion cyfathrebu yn ymwneud â Mamolaeth a Gynaecoleg yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill - 30 Mehefin yn cyfrif am ryw 30% o bob pryder ffurfiol 'a gaewyd'. Faint o'r 17 pryder ffurfiol, sydd eto i gael eu cau, sy'n ymwneud â chyfathrebu? Allech chi roi ychydig o wybodaeth am y materion cyfathrebu penodol sy'n peri pryder, ac am y camau sydd wedi eu cymryd neu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon hyn?

Ateb: Aeth Mamolaeth a Gynaecoleg i'r afael â nifer uchel o gwynion heb eu datrys rhwng Ebrill a Mehefin 2020. Nid oedd y gwaith blaenorol o lunio adroddiadau thematig ynghylch materion cyfathrebu wedi ei gwneud yn bosibl nodi materion penodol. Fodd bynnag, mae mentrau eang eu cwrmpas wedi bod, yn ymwneud â diwylliant a rhannu gwybodaeth, yn rhan o'r ymateb i adroddiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr corfforaethol ar hyn o bryd i ddatblygu dulliau mwy cadarn o reoli camau gweithredu ac o nodi themâu, er mwyn cynorthwyo'r gwaith o ddatrys materion ac adrodd am sicrwydd.

Mae dwy gŵyn (o 17) heb eu datrys gan Obstetreg a Gynaecoleg ar hyn o bryd sy'n ymwneud â chyfathrebu.

Er ein bod yn cymryd pob pryder o ddifrif, mae'n bwysig pwyso a mesur yr holl adborth a dderbynnir, a gallwn ddangos tystiolaeth o'r adborth hynod, hynod gadarnhaol gan ddefnyddwyr ein gwasanaethau yn ystod y pandemig, ac mae'r Cyngor Iechyd Cymuned ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ill dau wedi cyhoeddi adroddiadau'n ddiweddar sy'n adlewyrchu i raddau helaeth farnau positif defnyddwyr ein gwasanaethau.

Sylw: 6.1b Dim ond i nodi bod trafodaeth hir wedi ei chynnal am yr adborth gwael a roddir i'r rhai sy'n cyflwyno adroddiad ar Datix yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a chredaf fod cynllun yn ei le a fydd, fe obeithir, yn helpu i ddatrys y pryder hwn.

Eitem Rhif 2.1.1 ar yr Agenda

Cyflwynodd G Dix yr adroddiad, a dywedodd fod y tîm wedi parhau i weithio trwy gydol ail don COVID-19 er mwyn cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol. Diolchodd G Dix i'w dîm am y gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma.

NODODD Aelodau fod 59 o'r 79 argymhelliad gwreiddiol wedi eu cyflawni bellach, a bod y gweddill yn agos at gael eu cyflawni. **NODODD** Aelodau fod yr argymhellion sy'n weddill yn ymwneud yn bennaf ag arweinyddiaeth a diwylliant, a bod cymorth allanol wedi ei geisio ar gyfer hyn ond bod COVID-19 wedi atal y gwaith. Dywedodd G Dix fod y gwaith ar arweinyddiaeth wedi mynd rhagddo ar lein erbyn hyn, a bod disgwyl iddo gael ei orffen erbyn diwedd Chwefror 2021.

O ran diwylliant, roedd canlyniadau'r arolwg am ddiwylliant, yr oedd cant o aelodau o staff wedi ei gwblhau ym Mamolaeth, wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. **NODODD** Aelodau fod cynlluniau ar waith i gynnal arolwg arall i staff. **NODODD** Aelodau fod canlyniadau'r arolwg yn dangos bod staff bellach yn teimlo'n ddiogel yn seicolegol i godi rhai pryderon. Fodd bynnag, roedd rhagor o waith i'w wneud o ran rhoi adborth i staff yn sgil y digwyddiadau y maent wedi eu hadrodd.

Mewn perthynas â'r rhaglen yn gyffredinol, **NODODD** Aelodau fod cynnydd o ran y llwybr camesgoriad wedi arafu, a **NODASANT** fod cymorth profedigaeth i fenywod bellach ar gael ar gyfer babanod a aned o dan 18 wythnos oed ac a gollwyd.

Mewn perthynas ag Adolygiadau Clinigol, **NODODD** Aelodau fod y categori cyntaf bellach wedi ei gwblhau, a bod gohebiaeth wedi ei hanfon yr wythnos ddiwethaf at y rhai yr effeithiwyd arnynt. Dywedodd G Dix fod y darn o waith ar gyfer pennu lefel y risg wedi ei wneud, a bod menywod a'u teuluoedd yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran hyn.

NODODD Aelodau fod Cyfarwyddwr Gwasanaethau Newyddenedigol wedi ei benodi, a bod Dr N Lyons bellach yn Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Gwasanaethau Newyddenedigol. **NODODD** Aelodau fod rhyw 12 i 13 argymhelliad yn ymwneud â Gwasanaethau Newyddenedigol a oedd yn cael eu cyflawni o dan oruchwyliaeth y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth.

Dywedodd y Cadeirydd fod y cynnydd sydd wedi ei wneud o ran y gwasanaeth camesgoriad yn galonogol, a gofynnodd am eglurder o ran

Eitem Rhif 2.1.1 ar yr Agenda

profiadau menywod o ofal o'r naill wythnos i'r llall. Dywedodd G Dix fod y Gwasanaeth Cymorth a Chyswllt Cleifion wedi gweithio gyda thimau clinigol cyn COVID-19 ar y Ward Geni mewn perthynas â phrofiadau menywod, ond roedd rhaid rhoi'r gorau i'r gwaith hwn oherwydd y pandemig. **NODODD** Aelodau fod adborth cadarnhaol yn cael ei dderbyn o hyd am y gofal a ddarperir, er bod heriau i'w goresgyn o hyd o ran lefelau o gyfathrebu. **NODODD** Aelodau fod menywod yn cael eu hannog o hyd i roi adborth am eu gofal, er bod nifer y cwynion ffurfiol wedi gostwng.

Rhoddodd M K Thomas sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch lefel y craffu gan y Bwrdd Gwella Mamolaeth a'r Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth, ac ychwanegodd fod cynnydd yn cael ei wneud o hyd.

Diolchodd y Cadeirydd i G Dix am gyflwyno'r diweddariad.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

HB/20/225

EITEM 6.2 AR YR AGENDA Y DIWEDDARAF YNGYLCH DEDDF LEFELAU STAFF NYRSIO (CYMRU)

Cyflwynodd G Dix yr adroddiad, a roddodd ddiweddariad i'r Bwrdd am yr Archwiliad Chwemisol o Aciwtedd Cleifion, y mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd ei gynnal ddwywaith y flwyddyn. Mewn perthynas ag Adran 25b y Deddf, roedd gofyn i'r Bwrdd Iechyd adrodd ar ei gydymffurfiaeth o ran Wardiau Meddygaeth Gyffredinol a Llawfeddygol. Roedd 29 wardiau o'r fath yn y sefydliad.

NODODD Aelodau fod 22 o'r 29 ward hyn yn cael eu defnyddio at ddibenion gwahanol rhwng Mehefin – Medi oherwydd pandemig COVID-19. Yn sgil yr archwiliad a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2020, fe'i cytunwyd nad oedd angen ailgyfrifo lefelau staffio ar yr un o'r wardiau.

Dywedodd G Dix fod angen diolch yn ddiffuant i'r 5,000 o Nyrsys, Bydwragedd a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd am eu holl waith caled dros y naw mis diwethaf.

NODODD Aelodau fod y Deddf bellach yn cael ei hymestyn i Wardiau Paediatric a Nyrsio Ardal. **NODODD** Aelodau y bydd cyflwyno'r system cenedlaethol newydd yn ei gwneud yn bosibl i Aelodau'r Bwrdd weld y lefelau staffio gwirioneddol o gymharu â'r lefelau arfaethedig.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

HB/20/226

EITEM 6.3 AR YR AGENDA MEDDYGAEITH FRYS A GWASANAETHAU MÂN ANAFIADAU AC ANHWYLDERAU DIOGEL, CYNALIADWY HYGIRCH I BOBL Y RHONDDA A THAF ELÁI

Codwyd cwestiynau gan Aelodau Annibynnol cyn y cyfarfod, fel y maent wedi eu hamlinellu isod ynghyd â'r ymatebion:

Cwestiwn: Mae Tudalen 7 Pwynt 3 yn trafod y risgiau i'r Adran Argyfwng a'u lliniaru. Yn rhan o'r gwaith lliniaru, a fydd cynllun i gyflwyno'r model a drafodwyd ar Dudalen 4 ar gyfer Ysbyty Brenhinol Morgannwg ym mhob un o'n Hadrannau Argyfwng, i ddarparu gwasanaeth diogel a chynaliadwy i bob un o'n cymunedau?

Ateb: Mae Arweinydd Clinigol y tair Adran Argyfwng yn cwrdd i rannu arfer gorau o ran gwella ansawdd, ac maent hefyd yn rhannu modelau staffio (wrth gydnabod hefyd fod yr heriau yn y tair adran yn wahanol iawn).

Cwestiwn: Tudalen 6: Pwy yw aelodau'r Panel Partneriaeth?

Ateb: Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi naw aelod i'r Panel o'n cymunedau lleol gydag amrywiaeth o brofiad, yn eu plith athrawon, gweithwyr gofal iechyd, gwirfoddolwyr elusennol, cynrychiolwyr fforymau cymunedol ayyb. Mae manylion am y datganiadau o ddiddordeb ar gael ar gais.

Cyflwynodd N Lyons yr adroddiad a fanylodd ar gyd-destun penderfyniad y Bwrdd a wnaed ym Mehefin 2020. **NODODD** Aelodau fod tair elfen i'r gwaith a oedd eto i'w gwblhau.

NODODD Aelodau i waith mewn perthynas â'r model gweithlu barhau, a'r gweithlu meddygol yn enwedig. **NODODD** Aelodau fod cynnydd da wedi ei wneud wrth gynnal y gweithlu meddygol, a'r cynnig oedd bod y gwaith hwn bellach yn cael ei roi o dan reolaeth y Grŵp Lleoliad Integredig o hyn ymlaen. **NODODD** Aelodau fod y risgiau diogelwch wedi lleihau'n sylweddol bellach.

Mewn perthynas â Chymorth Paediatreg, roedd cynnig wedi ei wneud i symud Gofal Paediatreg yn ei gyfanrwydd i Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty'r Tywysog Siarl, ynghyd ag ymrwymiad i ddarparu cymorth Paediatreg yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Cynnig arall hefyd oedd bod y gwaith hwn bellach yn cael ei roi o dan reolaeth Grŵp Lleoliad Integredig y Rhondda, Taf ac Elái.

Eitem Rhif 2.1.1 ar yr Agenda

Mewn perthynas â sefydlu'r Panel Partneriaeth, **NODODD** Aelodau i'r Panel cyntaf gael ei gynnal ar 18 Tachwedd, a chafwyd trafodaethau hynod o gadarnhaol am y ffocws ar system Connect Ahead, llifau posibl a chyfathrebu ac ymgysylltu.

Diolchodd y Cadeirydd i N Lyons am gyflwyno'r adroddiad, a dywedodd fod y cynnydd o ran sefydlu'r Panel Partneriaeth yn galonogol.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI** cynnwys yr adroddiad a **CHYTUNO**:

- bod y cyfrifoldeb dros weithredu'r gwasanaeth Adran Argyfwng newydd a'r model staffio yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, ar yr amod y bydd y Bwrdd Rheoli yn cymeradwyo'r achos busnes, yn trosglwyddo'n ffurfiol i Grŵp Lleoliad Integredig y Rhondda, Taf ac Elái, a bod adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Bwrdd ymhen chwe mis.
- bod y cyfrifoldeb dros weithredu'r model mwyaf effeithiol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, ar yr amod y bydd y Bwrdd Rheoli yn cymeradwyo model gwasanaeth cyffredinol ar gyfer Paediatreg ar gyfer y Bwrdd Iechyd, yn cael ei drosglwyddo'n ffurfiol i Grŵp Lleoliad Integredig y Rhondda, Taf ac Elái, a bod adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Bwrdd ymhen chwe mis.
- Dylid cyflwyno adroddiadau diweddarau ynghylch y Panel Partneriaeth gerbron y Bwrdd bob dau fis.

HB/20/227

EITEM 6.4 AR YR AGENDA Y GOFRESTR RISG SEFYDLIADOL

Codwyd cwestiwn gan Aelod Annibynnol cyn y cyfarfod, fel yr amlinellir isod ynghyd â'r ateb a roddwyd:

Cwestiwn: 6.4c - y Gofrestr Risg Sefydliadol - Tudalen 9 - Risg 3008 - methiant i gydymffurfio â gofynion hyfforddiant codi a chario - a ddylid ystyried hyn yn yr Is-bwyllgor Iechyd, Diogelwch a Thân hefyd?

Ateb: Diolch Bydd, fe fydd yr Is-bwyllgor Iechyd, Diogelwch a Thân hefyd yn derbyn hyn, ac mae'r Gofrestr Risg wedi ei diweddarau yn barod ar gyfer yr adolygiad gan y Bwrdd Rheoli ym mis Rhagfyr 2020.

Cyflwynodd G Galletly yr adroddiad a dywedodd y byddai cydweithwyr yn gyfarwydd â'r rhaglen gwella risg a lansiwyd yn gynharach yn y flwyddyn. Ychwanegodd mai hwn fyddai'r tro cyntaf i'r Bwrdd dderbyn y Gofrestr

Eitem Rhif 2.1.1 ar yr Agenda

Risg Sefydliadol yn ei fformat newydd, a oedd yn cynnwys nifer o risgiau nad oeddent wedi eu cyflwyno gerbron y Bwrdd o'r blaen.

NODODD Aelodau fod angen gwneud rhagor o waith o ran graddnodi risgiau ledled y Grwpiau Lleoliad Integredig ac Adrannau Corfforaethol, a **NODWYD** bod pob risg wedi ei neilltuo i'r Pwyllgorau sy'n craffu ar eu risgiau eu hunain.

Mewn perthynas â'r risg lefel uchel yn sgil agor Ysbyty'r Faenor, **NODODD** Aelodau fod adroddiad arall ar yr agenda i'w drafod yn y cyfarfod heddiw. **NODODD** Aelodau fod nifer o'r risgiau lefel uchel oedd yn weddill wedi eu hachosi gan effaith COVID-19.

Dywedodd G Galletly wrth Aelodau y byddai Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad o Reolaeth Risg, ac ychwanegodd y byddai'r adolygiad dilynol dan ofal Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Archwilio Cymru hefyd yn cynnwys adolygiad o Aeddfedrwydd Risg.

Dywedodd C Hamblyn nad oedd rhai o'r risgiau lefel uchel a gynhwyswyd ar y Gofrestr Risg Sefydliadol yn risgiau newydd, gan nad oeddent wedi eu cynnwys yn flaenorol fel risgiau ar gofrestrau risg unigol Adrannau Corfforaethol, a gâi eu hadrodd wrth y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar wahân.

NODODD Aelodau fod gwaith ar y gweill gyda chydweithwyr DATIX i ailstrwythuro'r Modiwl Risg, a bod disgwyl i'r gwaith hwnnw gael ei gwblhau ym mis Ionawr 2021. **NODWYD** hefyd fod gwaith ar y cyd yn mynd rhagddo gyda chydweithwyr o ran perchnogaeth risg.

Dywedodd C Hamblyn fod hyfforddiant ynghylch risg yn cael ei roi i dimau ar gais o hyd, a bod hyfforddiant pellach i gael ei roi i Grŵp Lleoliad Integredig y Rhondda, Taf ac Elái ar 30 Tachwedd 2020. **NODODD** Aelodau y bydd Sesiwn Datblygu'r Bwrdd arall ynghylch Derbynioldeb Risg yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2021.

Wrth ymateb i gwestiwn gan P Griffiths, ynghylch cyrraedd targedau ar gyfer cwblhau gwaith, cadarnhaodd C Hamblyn ei bod yn teimlo'n dawel ei meddwl o ran y dyddiadau targed a osodwyd, a dywedodd hefyd y byddai'r Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch unrhyw arafu o ran cynnydd.

Cyfeiriodd P Griffiths at y 69 risg a gynhwyswyd ar y gofrestr, a dywedodd ei bod yn ymddangos nad oedd fawr o gynnydd wedi ei wneud

Eitem Rhif 2.1.1 ar yr Agenda

i liniaru ar y risgiau hyn dros y 12 mis diwethaf. Gofynnodd a fyddai angen unrhyw adnoddau pellach i fynd i'r afael â hyn. **NODODD** Aelodau fod y risgiau bellach yn cael eu hadolygu yng nghyfarfodydd o'r Bwrdd Rheoli bob mis, a **NODWYD** y byddai'r Gofrestr Risg yn eitem allweddol ar yr agenda ym mhob un o gyfarfodydd Pwyllgorau'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod modd ceisio sicrwydd bod camau'n cael eu cymryd i liniaru ar risgiau. Ychwanegodd C Hamblyn y dylai Aelodau'r Bwrdd, fe obeithir, allu gweld y broses yn datblygu dros amser.

Dywedodd A Lawrie i'r Grwpiau Lleoliad Integredig etifeddu nifer o risgiau ar ôl mynd yn weithredol ar 1 Ebrill 2020, ynghyd â chofrestrau risg nad oeddent wedi eu hadolygu ers cryn amser. Ychwanegodd fod llawer o waith wedi ei wneud i sicrhau bod y Gofrestr Risg mor fanwl gywir â phosibl. **NODODD** Aelodau fod adolygiadau misol o berfformiad yn cael eu cynnal gyda phob Grŵp Lleoliad Integredig, ac roedd yr adolygiadau hyn yn canolbwyntio ar ansawdd a chynnydd o ran eu Cofrestrau Risg.

Cyfeiriodd J Sadgrove at Risg 4106 a 4107, a dywedodd fod y risgiau hyn wedi eu neilltuo i ddau bwyllgor iddynt graffu arnynt. Gofynnodd a fyddai'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn adolygu'r agweddau ar ddiogelwch, ac a fyddai'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn adolygu'r agweddau ar y gweithlu. Wrth ymateb, cadarnhaodd C Hamblyn fod hyn yn wir. Canmolodd J Sadgrove y cynnydd sydd wedi ei wneud.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y naw risg a oedd wedi cael sgôr tebygolrwydd o 5, oedd yn golygu bod y risg yn debygol o ddigwydd, at y saith risg gyda sgôr tebygolrwydd o 4 ac at y 37 risg lle nad oedd fawr o gynnydd wedi ei wneud i'w lliniaru, oedd yn peri pryder. Dywedodd y Cadeirydd, er ei fod yn cydnabod bod angen dilysu pellach, ei bod yn hynod o bwysig bod hyn yn fater o bwys i'r Bwrdd Iechyd o ran gwella ansawdd y gofal mae'r Bwrdd Iechyd yn ei ddarparu.

Diolchodd y Cadeirydd i C Hamblyn a'i chydweithwyr am y gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma.

PENDERFYNODD y Bwrdd:

- **NODI** - y cynnydd sydd wedi ei wneud wrth gyrraedd y cerrig milltir ar gyfer risgiau;
- **CYMERADWYO** - yr argymhellion mewn perthynas â'r Risgiau Newydd a'r risgiau sydd wedi eu diweddarau.

Eitem Rhif 2.1.1 ar yr Agenda

Cyflwynodd C Williams yr adroddiad, a noddodd pa mor bwysig ydyw bod y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o effaith y newidiadau yn y llif cleifion ar Ysbyty'r Tywysog Siarl. **NODODD** Aelodau i hyn gael ei gofnodi'n risg ar y Gofrestr Risg Sefydliadol.

NODODD Aelodau fod Ysbyty'r Faenor wedi ei agor 6 mis yn gynnar, ac mai 1 Ebrill 2021 oedd y dyddiad agor gwreiddiol. Er bod yr agoriad wedi bod yn llwyddiant, roedd hefyd yn heriol o ran rhagdybiaethau cynllunio'r Bwrdd Iechyd a'r trafodaethau am effaith llif y cleifion. **NODODD** Aelodau fod y Bwrdd Iechyd wedi bod yn cydweithio'n agos â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ers mis Medi.

NODODD Aelodau i'r adroddiad nodi'r camau a gymerwyd i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn barod am unrhyw newid posibl i'r llif cleifion, a **NODWYD** yr angen i sicrhau bod llwybrau clinigol effeithiol ar waith.

Wrth ymateb i gwestiwn gan P Griffiths o ran y galw posibl am wasanaethau, dywedodd C Williams fod angen gwell dealltwriaeth am sut y byddai'r cyhoedd yn ymateb o ran eu dewis o ysbyty i dderbyn gofal, er bod rhagdybiaethau cynllunio wedi eu gwneud ac er bod gwaith wedi ei wneud o ran cynlluniau comisiynu. Byddai rhaid ystyried hefyd i ble y byddai ambiwlansys yn debygol o gludo cleifion.

Wrth ymateb i gwestiwn gan M K Thomas am y galw tebygol am wasanaethau dros y misoedd nesaf, dywedodd C Williams y byddai cyfle i staff ddwyn materion i sylw'r Cyfarwyddwr Gweithredol dros Weithrediadau yn ddyddiol, ac y byddai cyfarfodydd misol yn parhau i gael eu cynnal gyda phartneriaid i drafod unrhyw broblemau. Cadarnhaodd A Lawrie fod y sefyllfa'n cael ei monitro'n ddyddiol, a nododd nad oedd yr un Grŵp Lleoliad Integredig yn adrodd unrhyw broblemau ar hyn o bryd.

Gofynnodd M Jehu a oedd cynllun cyfathrebu wedi ei lunio mewn perthynas â hyn. Cadarnhaodd C Williams fod gan BIP Aneurin Bevan gynllun cyfathrebu, a chadarnhaodd hefyd fod trafodaethau wedi eu cynnal â thîm cyfathrebu BIP CTM hefyd.

NODODD Aelodau, mewn perthynas ag agweddau ariannol ar y cynllun, y byddai angen gwneud rhagor o waith o ran llifau comisiynu a'r ymateb gweithredol.

Eitem Rhif 2.1.1 ar yr Agenda

Gofynnodd N Milligan a oedd yr Adran Argyfwng yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn barod am y llif ychwanegol o gleifion, ac ychwanegodd fod yr adran o dan bwysau sylweddol eisoes. Dywedodd C Williams fod gallu'r Bwrdd Iechyd i ymateb wedi ei gynnwys ar y gofrestr risg eisoes, ac ychwanegodd y byddai angen rhagor o waith o ran llwybrau clinigol a fyddai'n lleihau'r risg.

O ran llif y cleifion, dywedodd N Milligan i Aelodau'r Bwrdd gael gwybod yn flaenorol bod cleifion wedi bod yn wynebu oedi wrth dderbyn prawf COVID-19 cyn y gallent gael eu symud, a bod y broblem hon yn effeithio ar lifau cleifion. **NODODD** Aelodau fod camau'n cael eu cymryd i gynyddu faint o offer profi sydd ar gael yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg, a bod y gallu i gynnal Profion Pwynt Gofal ar fin gwella yn y tri ysbyty a ddylai effeithio'n gadarnhaol ar y sefyllfa.

Diolchodd y Cadeirydd i C Williams am gyflwyno'r adroddiad.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

HB/20/229

EITEM 6.6 AR YR AGENDA - Y DANGOSFWRDD PERFFORMIAD INTEGREDIG

Codwyd cwestiynau gan Aelodau Annibynnol cyn y cyfarfod, ac fel y'u hamlinellir isod ynghyd â'r ymatebion a roddwyd:

Cwestiwn: *Lle mae perfformiad yn neilltuol o wael, neu'n dirywio'n fawr, ydych chi'n credu y byddai'n werth cynnwys esboniad cryno am y perfformiad gwael, y risgiau posibl perthnasol a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r sefyllfa (at ddibenion sicrwydd)? Mae'n ymddangos y byddai'n dda derbyn rhagor o wybodaeth er enghraifft am ddau wasanaeth yn yr adroddiad diweddaraf:*

- Tudalen 6, Cyfeirnod 2.20: Amseroedd Aros Canser - Targed o 62 diwrnod ar gyfer Wroleg
- Tudalen 7, Cyfeirnod 2.26: Cydymffurfiaeth CAMHS 1(a)

Ateb: *Dylem, fe ddylem ddarparu esboniadau ynghylch y camau a gymerir yn ogystal â'r problemau. O ran Wroleg - mae hon yn broblem barhaus ac fe fyddaf yn rhoi diweddariad pellach yn y cyfarfod os bydd angen. O ran CAMHS - Fe fydd gwaith Galw a Chapasiti yn cael ei orffen dros y pythefnos nesaf, mae cynlluniau swydd ar gyfer pob aelod o staff*

Eitem Rhif 2.1.1 ar yr Agenda

clinigol wedi eu cwblhau ac mae mwy o weithgarwch cleifion wedi ei gynnwys/ei flaenoriaethu, ac mae mentrau rhestrau aros ar y gweill.

Cwestiwn: *Fel bod gan y Bwrdd ddealltwriaeth lawn o berfformiad gwasanaethau, ydych chi'n credu y dylai Adroddiad Perfformiad y Bwrdd gynnwys data perfformiad am Wasanaethau Arbenigol hefyd (a gomisiynwyd ar ein rhan gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru) fel mater o drefn? Oes unrhyw wasanaethau eraill nad yw eu perfformiad yn cael ei adrodd wrth y Bwrdd trwy'r Adroddiad Dangosfwrdd?*

Ateb; *Atebwyd y cwestiwn hwn yn y cyfarfod.*

Cwestiwn: *6.5b Tudalen 4 O ystyried canlyniadau presennol ac hirdymor gordewdra yn ystod plentyndod, oes unrhyw gynlluniau penodol (ar wahân i gymorth gan y gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd a fydd yn wahanol yn dibynnu ar y cod post) i weithio gyda theuluoedd a chymunedau er mwyn mynd i'r afael â'r ganran uchel o'r plant 4-5 oed sydd wedi eu categoreiddio'n ordew/clinigol ordew ym Merthyr Tudful?*

Ateb:

- Yn rhan o'r gwaith 'cyn cenhedlu', rydym yn bwriadu datblygu dull ar sail haenau ar gyfer paratoi at famolaeth a thadolaeth a mynd yn oedolyn, a byddwn yn canolbwyntio ar ddulliau iach o fyw/datblygu cadernid (a fydd yn cynnwys rhaglenni i hybu maeth yn y teulu ayyb).*
- Rydym yn adolygu'n benodol beth sy'n rhan o'r dull Nyrsio Ysgol ym Merthyr - nid yw'r dull hwn wedi newid yn y blynyddoedd diweddar yn ôl y sôn, felly mae'r Uwch-nyrs yn bwriadu meincnodi'r un peth.*
- Rydym yn bwriadu datblygu'r gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma wrth ymgysylltu â phobl ifanc, ac yn bwriadu gofyn i bobl ifanc feddwl am ddulliau ar gyfer y dyfodol (rydym yn gweithio gyda'r Comisiynydd Plant i fwrw ymlaen â hyn).*

Cyflwynodd C Williams ac A Lawrie yr adroddiad. **NODODD** Aelodau fod yr adroddiad yn cael ei ystyried, ac mai'r bwriad yw datblygu dull cerdyn sgorio cytbwys. **NODWYD** y pwyntiau allweddol canlynol:

- Mae rhestrau aros yn parhau i dyfu. Fodd bynnag, mae cleifion sydd angen gofal brys yn dal i dderbyn triniaeth.*
- Mae'r sefyllfa o ran canser yn heriol o hyd, yn enwedig yn achos Wroleg. **NODODD** Aelodau fod nifer o gleifion yn aros dros 104 diwrnod am driniaeth, a bod Adolygiadau o Niwed yn cael eu cynnal*

Eitem Rhif 2.1.1 ar yr Agenda

ar gyfer pob claf oedd yn aros. **NODODD** Aelodau fod y nifer o gleifion sy'n aros wrthi'n lleihau;

- Mae heriau o hyd yn y tair Adran Argyfwng oherwydd COVID-19 a phwysau'r gaeaf;
- Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adolygiad cynhwysfawr o berfformiad mewn perthynas ag iechyd meddwl yn cael ei fonitro;
- Mae perfformiad CAMHS yn parhau i fod yn heriol. **NODODD** Aelodau i gynnydd yn y nifer o atgyfeiriadau ddigwydd yn fuan ar ôl i blant ddychwelyd i'r ysgol, a hynny yn CAMHS Syflaenol ac Eilaidd. **NODODD** Aelodau mai tair wythnos oedd y cyfnod aros ar gyfartaledd erbyn hyn, o gymharu ag wythnos yn ystod yr haf, a bod cydymffurfiaeth mis Awst wedi gostwng i 9.1%;
- O ran Targedau Atgyfeirio a Thriniaeth, roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn bod y ffocws yn cael ei symud oddi ar hyd y cyfnod aros ac i'r gwaith o flaenoriaethu cleifion; **NODODD** Aelodau y byddai rhagor o fanylder yn yr adroddiad nesaf am gleifion Cam 1-3 ac am gleifion Cam 4, a **NODWYD** bod rhagor o adnoddau wedi eu canfod i gynorthwyo'r Grwpiau Lleoliad Integredig o ran gofal cynlluniedig.

Wrth ymateb i'r cwestiwn a godwyd cyn y cyfarfod am ddata perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol a chynnwys y data hyn yn yr adroddiad, atgoffodd C Williams fod y data hyn yn arfer cael eu cynnwys yn y dangosfwrdd, ac ychwanegodd fod llifau gwybodaeth wedi eu hatal dros dro oherwydd COVID-19. **NODODD** Aelodau, er bod llifau gwybodaeth wedi ailgychwyn ac er bod rhai adroddiadau dros dro bellach yn cael eu derbyn oddi wrth Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gellid cyflwyno'r fath wybodaeth orau gerbron cyfarfodydd o'r Pwyllgorau. Awgrymodd C Williams y byddai diweddariad pellach yn cael ei roi i'r Bwrdd ym mis Ionawr.

Dywedodd P Mears y gallai fod yn ddefnyddiol i Stuart Brown, Cyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer Ailgychwyn Gofal Cynlluniedig, ddod i gyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol i drafod y gwaith sydd ar y gweill o ran Gofal Cynlluniedig a'r ffocws ar y Strategaeth Gofal Difrys dros y 6-12 mis nesaf.

Wrth ymateb i gwestiwn gan M K Thomas am Niwroddatblygiad a'r cynlluniau oedd ar y gweill i wella'r targed perfformiad o 26 wythnos, dywedodd A Lawrie y byddai'n rhoi ymateb y tu allan i'r cyfarfod mewn perthynas â'r cynllun manwl.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

EITEM 6.7 AR YR AGENDA ADRODDIADAU CRYNO'R PWYLLGORAU

Cyflwynodd J Sadgrove Adroddiad Cryno'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant, a dywedodd fod eitemau y mae'r Pwyllgor am eu dwyn i sylw'r Bwrdd.

NODODD Aelodau fod pryderon wedi eu codi gan y Pwyllgor am nifer y swyddi gwag, a sut oedd y Bwrdd Iechyd yn bwriadu eu llenwi. Roedd y Pwyllgor wedi nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal ymgyrch recriwtio lwyddiannus dramor.

NODODD Aelodau fod y Pwyllgor wedi codi pryderon am gwblhau Hyfforddiant Statudol a Gorfodol, a bod gostyngiad wedi bod yn y lefelau o gydymffurfiaeth oherwydd COVID-19. Nodwyd wrth y Pwyllgor fod y Tîm yn parhau i ystyried dulliau amgen o ddarparu hyfforddiant.

Tynnodd J Sadgrove sylw at y gwaith sydd ar y gweill o ran Gwerthoedd ac Ymddygiadau, ac ychwanegodd fod y staff yn cael cryn gydnabyddiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd J Sadgrove fod llawer iawn o waith wrthi'n cael ei wneud ar yr agenda Lles hefyd.

O ran recriwtio dramor, dywedodd H Daniel fod gan y Bwrdd Iechyd ragor o gynlluniau i barhau i recriwtio staff dramor. Fodd bynnag, roedd problemau ar hyn o bryd wrth ddod o hyd i lety ar gyfer nyrsys.

O ran Hyfforddiant Statudol a Gorfodol, dywedodd H Daniel fod angen sicrhau bod ESR yn hawdd ei ddefnyddio, a bod angen sicrhau nad oedd hyfforddiant yn cael ei wneud fwy nag unwaith yn ddiangen.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

SICRHAU CYNALIADWYEDD YM MHOB PETH A WNAWN, YN ECONOMAIDD, YN AMGYLCHEDDOL AC YN GYMDEITHASOL

EITEM 7.1 AR YR AGENDA DIWEDDARIAD CYLLID

Cyflwynodd S Webster yr adroddiad a dywedodd fod y fformat wedi ei newid ymhellach er mwyn sicrhau bod negeseuon pwysig yn cael eu cyflwyno ar ffurf naratif fel bod modd dod o hyd iddynt yn hawdd.

NODODD Aelodau fod y cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer COVID-19 a'r gaeaf bellach wedi ei gynnwys mewn adroddiadau a bod y gyllideb eisoes yn cael ei hystyried o ran cynllun Chwarter 3/Chwarter 4.

Eitem Rhif 2.1.1 ar yr Agenda

NODODD Aelodau fod tanwario o £600k yn y gyllideb ar gyfer Mis 7, a achoswyd yn bennaf gan newidiadau mewn gwariant a llithriant.

Yn ôl adborth gan Lywodraeth Cymru, dywedodd S Webster fod Llywodraeth Cymru am gael sicrwydd y bydd y Bwrdd Iechyd yn gallu gwario'r cyllid y cynlluniodd i'w wario, a bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Bwrdd Iechyd gynnal adolygiad pellach o gynllun Chwarter 3/4 er mwyn penderfynu a fydd modd defnyddio'r cyllid. Byddai trafodaeth bellach yn cael ei chynnal yn y sesiwn Preifat yn hwyrach ymlaen heddiw.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

HB/20/232

EITEM 7.2 AR YR AGENDA DIWEDDARIAD AM BREXIT

Cyflwynodd C Williams yr adroddiad a dywedodd fod yr adroddiad yn nodi bod llawer iawn o waith paratoi yn cael ei wneud ar lefel Cymru gyfan. **NODODD** Aelodau fod y gwaith wedi ailgychwyn ym mis Medi, a bod gwaith ar y gweill gyda phartneriaid allweddol, er enghraifft Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Dywedodd C Williams fod grwpiau mewnol y Bwrdd Iechyd wedi dechrau cyfarfod eto ar lein.

NODODD Aelodau fod y gwaith cynllunio sydd wedi ei wneud ledled GIG Cymru a chan Lywodraeth Cymru wedi mynd rhagddo ar y rhagdybiaeth na fyddai borgen yn cael ei tharo, a **NODODD** Aelodau fod hyn wedi ei nodi ar y Gofrestr Risg Sefydliadol

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

ER GWYBODAETH / I'W NODI

HB/20/233

EITEM 8.0.0 EITEMAU ER GWYBODAETH/I'W NODI

Derbyniodd y Bwrdd yr eitemau canlynol er gwybodaeth:

- Briff Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru Hydref 2020;
- Briff Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru Tachwedd 2020;
- Adroddiad Sicrwydd Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau Medi 2020;
- Adroddiad yr Ombwdsmon am BIP CTM

HB/20/234

EITEM 9.0.0 AR YR AGENDA UNRHYW FATERION BRYD ERAILL

Eitem Rhif 2.1.1 ar yr Agenda

Ni fu unrhyw faterion eraill.

HB/20/235

EITEM 10.0.0 AR YR AGENDA DYDDIAD CYFARFOD CYHOEDDUS NESAF Y BWRDD

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal Ddydd Iau 28 Ionawr 2020.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau aros am Sesiwn Preifat y cyfarfod.

LLOFNODWYD:.....

M. Longley, Cadeirydd

DYDDIAD:.....